

Canllawiau ar gyfer Grantiau Cymorth Covid-19

Pwy sy'n Gymwys

1. Cydnabyddir fod elfen o ymddiriedaeth yn hyn ac y bydd yn rhaid i'r cyngor hepgor rhywfaint o'i lywodraethu caled.
2. Rhaid i'r arian gael ei ddefnyddio ar gyfer costau ychwanegol a wynebwr wrth roi neu ddarparu cymorth i, berson neu deuluoedd, o fewn ffiniau Dinas Bangor, sydd mewn angen mwy o ganlyniad i epidemig y Coronafeirws.
3. Er y byddai'n well gan y Cyngor roi taliadau bloc i elusennau a mudiadau lleol, nid oes raid i'r ymgeiswyr fod yn elusen sefydledig a bydd ceisiadau gan unigolion yn cael eu hystyried.
4. Gall gwirfoddolwyr sy'n gwneud gweithgareddau elusennol hawlio treuliau parod. Gall y mathau o dreuliau gynnwys taliadau a wneir am brynu bwyd neu ddsbarthu i bobl fregus neu 'mewn risg', costau danfoniadau, treuliau parod eraill. Mewn rhai achosion, gellir ystyried taliadau bychain i'r gwirfoddolwyr eu hunain.
5. Dylid anfon eglurhad o sut y gwariwyd y grant (yn cynnwys prawf gwariant) i'r Cyngor o fewn un mis o roi'r grant.

Y Broses Hawlio

1. Anfon yn electronig i Glerc y Dref, drwy townclerk@bangorcitycouncil.com
2. Manylion i gynnwys Enw(au), cyfeiriad(au) a manylion cyswllt y person(au) sy'n gyfrifol am y gwariant.
3. Datganiad o bwrpas a'r costau ychwanegol tebygol.
4. Manylion y derbynyddion.
5. Manylion cyfrif banc (os yn berthnasol).

Y Broses Gymeradwyo

1. Cais yn cael ei gyflwyno i Glerc y Dref,
2. Cynghorydd/Cynghorwyr ward lleol (yn cynnwys Cynghorydd Ward Gwynedd) i anfon argymhellion yn seiliedig ar wybodaeth leol/ymchwil. (Os nad oes gwrthdaro buddiannau, h.y. eu bod yn gwneud cais am y cyllid eu hunain).
3. Bydd cymeradwyaeth derfynol i'r cais yn cael ei wneud gan gworwm (isafswm 4 Cynghorydd) o Bwyllgor Grant Coronafeirws Cyngor Dinas Bangor, a fydd yn cynnwys: y Maer, y Dirprwy Faer, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgorau Cynllunio ac Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a Mwynderau (gan roi ystyriaeth i farn Clerc y Dref ac argymhellion cynghorydd/cynghorwyr lleol y ward).
4. Bydd y pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor gyda dadansoddiad o'r arian a wariwyd o'r dyraniad hwn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, derbynyddion (fesul categori), y dosbarthiad daearyddol a chostau gwirfoddolwyr.

Hawliadau pellach neu waith dilynol

1. Datganiad a rhestr o'r defnydd o'r arian a dderbyniwyd a derbynebaw lle bo modd.